

CYFARFOD	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli
DYDDIAD	15 Hydref 2019
TEITL	Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr
AWDUR	Rheolwr Harbwr Pwllheli

1. Eitemau Gweithredol

Mordwyo

1.1 Cynhelir archwiliad manwl o gymhorthion mordwyo Pwllheli gan arolygwyr Awdurdod Goleudy Tŷ'r Drindod ar 14 Hydref 2019. Nid ydym yn rhagweld unrhyw broblemau ym Mhwllheli ond rydym yn disgwyl am eu hadroddiad terfynol.

1.2 Bydd Bwi *Fairway* Pwllheli yn cael ei newid i'r Bwi *Fairway* gaeaf sydd fymryn yn llai o ran diamedr na'r fersiwn haf, mae'r Bwi llai yn medru ymdopi'n well â thywydd garw ac o ganlyniad nid yw'n rhoi cymaint o straen ar yr offer ar y ddaear.

1.3 Nid oes "Rhybudd i Forwyr" yn weithredol yn Harbwr Pwllheli ar hyn o bryd.

1.4 Gorsaf dywydd newydd

Dros y blynyddoedd diweddar, mae'r orsaf dywydd yn Hafan Pwllheli wedi bod yn annibynadwy ac rydym wedi bod yn cael trafferth darganfod un yn ei lle. Ar ôl cryn chwilio, rydym wedi canfod mai dim ond un cwmni yn y byd sy'n cynhyrchu'r math hwn o gyfarpar! Mae'r cwmni, "Davis", wedi mynd drwy broses o uwchraddio ei holl systemau yn ddiweddar, ac unwaith y bydd wedi'i gwblhau, bydd system newydd ar gael ac fe fyddwn yn ei phrynu. Yna, bydd modd i gwsmeriaid gael data "Tywydd Byw" oddi ar wefan Hafan Pwllheli unwaith eto.

1.5 Gwe Gamera

Ar hyn o bryd, rydym yn gosod pedwar gwe gamera yn yr Hafan. Bydd y pedwar camera wedi'u cysylltu â gwefan Hafan a bydd hyn yn galluogi pobl i gael gweld delweddau byw o'r Hafan a'r Harbwr ar eu porwr.

1.6 Uwchraddio band eang

Mae'r peirianwyr WiFi wrthi'n gweithio ar wella'r gwasanaeth yn y marina. Rydym hefyd yn y broses o gael BT i osod lein ffibr optig Band Eang Cyflym lawn at y marina. Gobeithio y bydd hyn yn gwella'r gwasanaeth ac yn darparu dewis amgen lle y gallai cwsmeriaid weithredu rhai elfennau o'u busnes oddi ar eu cychod yn Hafan Pwllheli.

1.7 Cofrestru cychod, cychod pŵer a Jet skis

Mae problem bosib wedi'i hadnabod lle mae cychod yn cael eu lansio ar slipffordd yr Hafan heb iddynt fod yn arddangos y sticeri PW neu PC priodol gan y cwmnïau Parcio a Lansio. Mae nifer o ffurflenni cais yn cael eu dosbarthu ar

ddechrau pob tymor i'r cwmnïau Parcio a Lansio. Yn anffodus, nid yw'r manylion sydd wedi'u dychwelyd i Awdurdod yr Harbwr yn adlewyrchu'r holl gychod sy'n cael eu lansio.

1.8 Cei Tanwydd - Uned Hunanwasanaeth / Disel Coch / Disel Gwyn

Gosodwyd yr uned yn ystod trydydd wythnos mis Mehefin, ac mae wedi bod yn ddibynadwy a didrafferth hyd yma. Mae cwsmeriaid yr Hafan/Harbwr wedi croesawu'r cyfleuster ac erbyn hyn fe allant lenwi eu cychod â thanwydd 24/7. Yn ogystal, mae'r Llys Ewropeaidd wedi dyfarnu na all y DU gyflenwi Disel Coch neu Ddisel wedi'i farcio. Felly, bydd yn rhaid i Hafan Pwllheli droi yn ôl at gyflenwi disel gwyn yn unig yn ei gei tanwydd yn y dyfodol agos.

1.9 Drws awtomatig y porth blaen

Gosodwyd drws ffrynt awtomatig newydd ym mis Mai. Mae hyn wedi gwella edrychiad blaen yr adeilad ac wedi gwella diogelwch i gwsmeriaid yn ystod gwyntoedd cryfion. Arferai'r hen ddrws gau yn glep ar yr adegau hynny.

2.0 Cynnal a Chadw

2.1 **Cei'r Gogledd** - Mae'r gwaith o gynnal a chadw Cei'r Gogledd wedi mynd yn fwyfwy anodd dros y blynyddoedd diweddar. Nid oes gan yr Harbwr arian dros ben / staff na'r arbenigedd mewnol i wneud y gwaith angenrheidiol. Mae Cei'r Gogledd yn ganolbwynt ar gyfer y dref ac o ganlyniad mae angen ei gynnal a'i gadw i ansawdd dda. Mae angen chwilio am ddatrysiad gwahanol yn y dyfodol agos.

2.2 Mae rhestr o'r gwaith safonol fydd yn cael ei gwblhau neu sydd wedi ei gwblhau yn yr Hafan wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn. Gofynnir am adborth gan aelodau'r Pwyllgor ynghylch unrhyw waith arall fydd angen ei ystyried a'i gynnwys yn y rhaglen waith.

2.3 Yn ystod y cyfnod hwn, roedd yn rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr hyn a ganlyn:

- Antennau WiFi ychwanegol i wella'r gwasanaeth WiFi
- Band Eang Cyflym lawn Ffibr Optig
- Drws ffrynt awtomatig
- Peintio pont y pontŵn
- Peintio blaen yr Adeilad
- Cynnal a chadw tiroedd
- Hoist symudol ram/peipiau/teiers hydrolog
- Rheolydd swyddfa gefn hunanwasanaeth ar y Cei Tanwydd
- Pymphiau achub trydanol a phetrol ychwanegol
- Ffenderydd ar y Cei Tanwydd

3.0 Materion Staffio

- 3.1 Nid oes unrhyw swyddi gwag ym Mhwlheli ar hyn o bryd. Cyfanswm y staff yw 11 sy'n cynnwys un swyddog diogelwch gyda'r nos o "Draig Security".
- 3.2 Daeth swydd dymhorol gweinydd tanwydd y cei i ben ar 30 Medi. Nid ydym yn rhagweld y bydd gofyn yn 2020 am weinydd ar gyfer y cei tanwydd ond byddwn yn cyflogi Cymhorthydd(ion) Cyffredinol ar gyfer tymor 2020.

4.0 Materion Ariannol

- 4.1 Darparwyd adroddiad ariannol hyd at ddiwedd mis Hydref 2019 yn Atodiad 1.
- 4.2 Noder bod y system gyfrifo arian cyhoeddus yn wahanol i'r system gyfrifo sector masnachol gan bod y symiau debyd (gyda'r rhagddodiad '-') yn cynrychioli symiau positif ar y fantolen.

5.0 Ffioedd a Thaliadau 2020/21

- 5.1 O ran ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer Hafan Pwllheli a'r Harbwr Allanol yn 2020, bydd y ffioedd ar gyfer yr Hafan a'r Harbwr yn codi 2%.
- 5.2 Bydd y tâl ychwanegol o 5% i gwsmeriaid sy'n talu am angorfa flynyddol drwy Ddebyd Uniongyrchol yn yr Hafan yn unol â'r Harbwr Allanol, lle na chodir ffi ar gwsmeriaid am ddefnyddio'r cyfleuster hwn.

6.0 Ystadegau Harbwr/Hafan Blynyddol ac ati.

- 6.1 Mae manylion ystadegau'r Hafan a'r Harbwr ar gyfer 2019 wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.
- 6.2 Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y cwsmeriaid yn cymryd angorfa flynyddol yn 2019. Yn 2018, roedd 291 o gychod ar angorfeydd blynyddol ac fe gynyddodd hyn i 299 eleni. Mae nifer y cychod a ystyrir yn gychod sy'n ymweld yn gyson â 2018. Yn 2018, cafwyd 1310 o gychod ymweld ac yn 2019, croesawyd 1076 erbyn diwedd mis Medi 2019.
- 6.3 Mae angorfeydd yr harbwr wedi cynyddu mymryn o 55 yn 2018 i 58 yn 2019, arhosodd y ffioedd angori yr un fath â 2018 gyda dim cynnydd yn 2019. Mewn termau real, ar ôl ystyried chwyddiant, roedd ffioedd wedi gostwng o 3.1%.

6.4 **Hoist Cychod / Storio ar y lan** - Mae hoist cychod yr Hafan yn ymddangos yn sefydlog ond fe allwn ragweld y gallai hyn arafu i lawr dros y gaeaf hwn wrth i'r ardal storio cychod lenwi. Mae dau ffactor wedi cynyddu'r broblem hon. Yn gyntaf, mae gennym nifer o gychod yn cael eu storio ar y lan nad ydynt wedi cael eu symud am nifer o flynyddoedd, ac er bod yr Hafan yn derbyn rhent misol am storio'r cychod hyn, nid yw'n helpu'r sefyllfa pan fo'r gofyn yn fwy na'r gofod sydd ar gael! Yn ail, mae Gorsaf Bad Achub newydd Pwllheli, a gwblheir yn 2020/21, wedi lleihau'r gofod sydd ar gael yn yr ardal storio - bydd lle i 10-12 cwch yn llai.

6.5 **Gwerthiant tanwydd** - yn gyson gyda 2018, gyda dim ond ychydig o ostyngiad mewn gwerthiant disel ac ychydig o gynnydd mewn gwerthiant petrol yn 2019.

6.6 **Cyfrifon Hafan/Harbwr** - o 1 Ebrill 2019, trosglwyddwyd system gyfrifo Hafan Pwllheli a'i ganoli yn adran incwm Cyngor Gwynedd yng Nghaernarfon, ac er ein bod wedi cael mân broblemau ar y cychwyn ymddengys bod ein cwsmeriaid yn gyfarwydd â'r system newydd ac mae bellach yn gwbl weithredol ac yn gweithio'n dda.

7.0 Digwyddiadau

7.1 Defnyddiodd y *British Dragon Association* ddoc a pontŵn Plas Heli ar gyfer lansio / angori ac adfer y *Dragon fleet*, bu i oddeutu 32 o Ddreigiau gymryd rhan yn y digwyddiad a reolwyd ar y dŵr gan SCYC yn Abersoch.

7.2 Bu i'r "*Jester Challenge*", sy'n cael ei gynnal bob dwy flynedd, ddechrau ym Mhwlheli. Mae hon yn ras unigol ar gyfer unrhyw berson sydd â chwch o hyd at 30 troedfedd. Mae'n cychwyn ym Mhwlheli ac yn gorffen yn Baltimore, de Iwerddon. Bu i oddeutu 15 o gychod ddechrau'r her eleni.

8.0 Eitemau eraill

8.1 **Cwt cychod newydd yr RNLI** - Mae gwaith wedi cychwyn ar y Tŷ Cychod newydd fydd yn gartref i'r bad achub *New Shannon Class* ac mae'r gwaith i fod i gael ei gwblhau ddiwedd 2020.

9.0 Plas Heli

9.1 Mae'r gwaith o wella mynediad i feysydd parcio traeth Glandon a Phlas Heli ac ati, wedi mynd rhagddo ac fe ragwelir y bydd y gwaith wedi'i gwblhau yn gynnar ym mis Hydref.